# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 7fed o Ebrill 2022 drwy Zoom yn brydlon am 8.15 o'r gloch.**

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn o bell gan ddefnyddio technoleg, ac roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc.

**Yn bresennol** drwy 'Zoom': Y Cynghorwyr Angela Willams (Cadeirydd), Margaret Griffith, Anwen Jones, Thomas Prys Jones, Trefor Wyn Jones, Aled Davies, Darren Morley, William Ifor Hughes, Sian Angharad Parry, Ceri Jones a'r Clerc.

1. **Ymddiheuriadau**: Cynghorwyr Tegid Jones, Naomi Jones, Aled Lloyd Evans, Gareth O. Davies, a Sion Aled Jones.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 3ydd o Fawrth 2022. (Y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd lofnodi ei bod yn gywir).

3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Mawrth 2022 – (roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi ar 07.04.2022).

4. **Datgan buddiant personol**, - (roedd y Clerc wedi anfon copi electroneg at bawb cyn y cyfarfod). **Neb.**

5. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

Rhaglen waith am y mis nesaf ond heb nodi dyddiad.

| Rhif y Ffordd | Lleoliad Gwaith | Disgrifiad o'r Gwaith | Gwasanaeth |
|---|---|---|---|
| B4354 | Castellcoed – Ffatri Laeth | Draeniad – rheolaeth traffig 2-ffordd -yn ystod mis Ebrill | Priffyrdd |

**a) Cau'r Ffordd Ddi-ddosbarth gyferbyn á ffordd fynediad Ysgubor Hen, Chwilog (Gwaharddiad trafnidiaeth trwodd dros dro) 2022**

Daw'r Gorchymyn i rym ar yr 28ain o Fawrth, 2022 ac y pery am 1 mis. Ar hyn o bryd disgwylir y gellir cwblhau'r gwaith o fewn tua 15 diwrnod -gwaith ar geblau uwchben. **Derbyn**.

**b) Cau'r Ffordd Dosbarth III gyferbyn a Penrallt Bach, Ffordd Rhoslan ar yr 28ain o Fawrth, 2022** – gwaith gosod pibelli ar hyd y ffordd. **Derbyn**

**c) Cau'r Ffordd Dosbarth III gyferbyn a Ty Hir ac Yr Esgair, Llangybi ar yr 22ain o Fawrth, 2022 – gwaith atyweirio argyfwng ar wasanaeth cwsmer cyfagos. Derbyn**

**ch) Cau'r Ffordd Dosbarth III gyferbyn a Delfryn, Llangybi ar y 6ed o Ebrill, 2022** – adnewyddu polyn diffygiol a gwaith ar geblau BT Openreach. **Derbyn**

6. **Cyngor Gwynedd – ceisiadau cynllunio yn y gymuned**

a) **Cais rhif : C22/0215/41/HY - Hufenfa De Arfon Cyf, Hufenfa De Arfon, Y Ffôr** – gosod arwyddion. **Dim sylwadau.**

b) **Cais rhif : C22/0104/41/LL - Ysgubor Degwm, Chwilog**,- gosod 2 uned gwyliau hunan gynhaliol, tanc trin preifat a gwaith cysylltiedig. **Dim sylwadau.**

c) **Cais rhif : C22/0170/41/LL - Bourne Leisure Ltd, Hafan Y Môr, Chwilog** - codi tŵr neidio a bar. **Dim sylwadau.**

7. **Y Cynghorwyr sydd wedi penderfynu peidio rhoi eu henwau ymlaen i weithredu fel cynghorwyr am y pum mlynedd nesaf**.
Diolchwyd i bob un ohonynt am roi blynyddoedd lawer o wasanaeth dros y Cyngor Cymuned, y Cynghorydd Cyngor Sir, sef Cynghorydd Aled Lloyd Evans, y Cynghorydd Trefor Wyn Jones, Cynghorydd William Ifor Hughes, Cynghorydd Naomi Jones a'r Cynghorydd Ceri Jones. Yn sicr bydd colled mawr ar eu hol, a'r holl brofiad oedd ganddynt.
Derbyniwyd ebost gan y Cynghorydd Aled Evans yn ei absenoldeb, yn diolch i aelodau'r Cyngor Cymuned a'r Clerc am y gefnogaeth a'r cydweithrediad y cafodd o fod yn Gynghorydd Cyngor Sir dros y ddeng mlynedd diwethaf. Dymunodd yn dda hefyd i'r cynghorwyr oedd yn ymddeol.
Hefyd diolchwyd i bawb sydd am barhau i wasanaethu am y pum mlynedd nesaf.

Yn dilyn derbyn manylion yr enwebiadau i fod y gynghorwyr o'r 05.04.2022 ymlaen, derbyniwyd 2 enw newydd sef, Cynghorydd Rhys Tudur ar Ward Llanarmon, a'r Cynghorydd Delyth Parry ar Ward Llangybi, ac fe'i croesewir yn ein cyfarfod fis Mai.

**Materion yn y gymuned**.

8. **Llanystumdwy**
a) **Parcio gyferbyn tai Maen y Wern ac i fyny am Tŷ Newydd** – problem fod trigolion sydd yn byw yn y tai yn parcio ar y lon gul yn ei gwneud yn anodd i gerbydau basio. Y Clerc wedi anfon llythyr at Cyngor Gwynedd yn gofyn am y posiblrwydd o gael llinnellau melyn yno.
**Dal heb gael ateb, a gofynwyd i'r Clerc anfon copi at y Prif Weithredwr.**

**b) Cwtogi gwasanaeth bws** – derbyniwyd llythyr yn datgan pryder ymysg trigolion pentref Llanystumdwy fod cwtogi sylweddol wedi bod yn y gwasanaeth bws. Y broblem fwyaf yw nad oes gwasanaeth o Bwllheli ar ol 20:21 y.h., ac o Borthmadog nid oes bws ar ol 20:45 y.h. tan 23:27 y.h.
Mae rhai sydd yn gweithio shifftiau hwyr yn dibynnu ar y gwasanaeth bws, ac yn gorfod ystyried rhoi'r gorau i'w gwaith. Byddai'n well cael bws yn gadael Porthmadog a Phwllheli ar ol 21:30 fel ag yr oedd yn y gorffennol. **Gofynwyd i'r Clerc holi pam fod y drefn wedi newid, fod hyn yn cael effaith ar weithwyr a thwristiaeth, a'i fod yn fater amgylcheddol a hinsawdd, a bod gwasaeth bws bob hanner awr yn ystod yr haf blaenorol.**

9. **Rhoslan/Ynys**
a) **Gwinllan Rhos Ddu** – Clerc wedi ffonio Adran Gorfodaeth Cynllunio ar 23.02.2022, i holi am y gweithgaredd oedd yno, fe wnaeth gadarnhau y byddai'n trefnu i fynd yno ar ymweliad safle, ac nad oeddent wedi derbyn cais cynllunio ar gyfer y safle. **Aros a gweld.**

b) **Gwinllan ger Betws Fawr** – ymholiad fod mynedfa newydd yno, a llwythi lawer o 'rwbel' yn cael ei gario yno ers dyddiau, i wneud lon a sylfaen yng nghanol y goed. Clerc wedi ffonio a

sgwennu at Adran Gorfodaeth Cyngor Gwynedd i wneud ymholiadau, ac roeddent am fynd yno i weld. **Derbyn**.

10. **Chwilog**

a) **Hen 'londri', Afonwen** – pryder ynglŷn â beth sydd yn digwydd yno, oherwydd mae yna hen danciau 'disel'a phethau felly yn y ddaear yno ac mae angen bod yn ofalus iawn hefo unrhyw dyllu. **Clerc wedi siarad hefo'r Adran Gorfodaeth, nid ydynt wedi derbyn unrhyw gais, felly am edrych i mewn i'r mater.**

b) **Sbwriel ar ochr y ffordd rhwng yr Hufenfa a Chwilog**. Clerc wedi derbyn ebost gan Cyngor Gwynedd yn dweud, "yn dilyn ymgyrch glanhau diweddar gan y criwiau glanhau strydoedd, rwyf wedi gofyn iddynt gadw golwg ar y sefyllfa a threfnu fod y sbwriel yn cael ei godi yn rheolaidd. Roedd yr arweinyddion tim glanhau o'r farn y byddai gosod bin ysbwriel ar y safle yn gallu arwain at ragor o broblemau ysbwriel yn yr ardal. Yn aml iawn mae biniau ysbwriel yn cael eu gorlenwi neu yn denu ychwaneg o ysbwriel i gael ei waredu ger y bin. Byddwn yn cadw llygaid ar y sefyllfa ac yn trefnu i osod bin os bydd angen". **Derbyn.**

c) **Lón Goed, ger Cefn Coed, Chwilog** – derbyniwyd cwynion fod cyflwr y darn yma o'r lon, yn mynd i fyny o Chwilog Bach yn ofnadwy o fwdlyd, ac nad oedd yn bosib i gerddwyr fynd ar ei hyd. Deallir fod tractorau yn gwneud gwaith i fynedfeydd y caeau ers tro. **Y mater wedi cael ei gyfeirio at Cyngor Gwynedd ac wedi ei roi yn Y Ffynnon. Mae'r Cynghorydd Aled Lloyd Evans wedi derbyn ateb gan yr Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, yn dweud fod gan y perchennog tir hawl i ddefnyddio'r rhan yma o'r Lón Goed oherwydd roedd adwy yn bodoli yno ers amser maith. Er hyn, roedd am edrych i weld beth ellir ei wneud i orfodi'r perchennog i glirio'r llanastr, ac anffodus mae gwreiddiau rhai o'r coed wedi dod i'r gwyneb oherwydd y tramwyo.**

11. **Pencaenewydd/Sardis**

a) **Pont y Bryn/Ffynnon Cadfa** – ymholiad ynglŷn â phryd mae'r gwaith o atgyfnerthu'r bont yn mynd i gael ei wneud. Y Clerc wedi derbyn ateb gan Uwch Beirianydd Ymgynghoriaeth Gwynedd yn dweud nad oes bwriad ei atgyfnerthu, a nad yw ar y rhaglen waith am y flwyddyn ariannol yma. **Dywedodd fod angen tacluso y wal ar un pen ar ôl iddi gael ei tharo, ac y byddai yn mynd heibio i gael golwg arni**. **Derbyn**.

b) **Adroddiad Archwilio Llifogydd, gan Uwch Beiriannydd Ymgynghoriaeth Gwynedd** - a baratowyd dan adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 am y llifogydd yn Pencaenewydd ar y 29 o Hydref, 2021. Y prif gasgliadau oedd:-

"Mae Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i benodi contractwr i ddadansoddi opsiynau ar sut i glirio'r cylfat sydd yn rhedeg o'r Hen Felin, yn ogystal â cheisio am gyllid grant Cynllun Raddfa Fach Llywodraeth Cymru (2022-23). Os bydd yr awdurdodau yn llwyddiannus anela YGC i droi cwrs y briflif o'r pentref a cheisio lleihau'r perygl o unrhyw lifogydd yn y dyfodol. Dylid nodi na ellir cael gwared yn llwyr â pherygl llifogydd ac mae gan unigolion gyfrifoldeb personol i fod yn ymwybodol o lefel y risg llifogydd lle maent yn byw, i gynllunio'n effeithiol i warchod eu hunain a'u heiddo rhag niwed llifogydd". **Derbyn.**

12. **Llangybi**

**Coedwig Ynys Creua, Llangybi- Rhif achos G22/0048** – ebost gan Mr Aneurin Parry, Adran Cynllunio yn cadarnhau ei fod yn archwilio mewn i'r ffaith fod mynedfa newydd a newid defnydd tir yn cael ei wneud yma. **Derbyn.**

13. **Canolfan Iechyd Cricieth/Hwb Iechyd Cricieth**

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf, derbyniwyd llythyr gan Mr Wyn Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, yn ateb y cwestiynau a ofynwyd eisioes sef:-

- Fod cryn gwyno ymhlith trigolion yn y gymuned nad oedd meddygon sefydlog yng Nghricieth.
- Nodwyd mai gwasanaeth gan ddoctoriaid 'locum' sydd yno, ond bod un trethdalwr wedi gweld 4 gwahanol o fewn cyfnod o tua 6 wythnos. A oes bwriad i geisio cael doctoriaid sefydlog yno?
- Nodwyd byddai'n well cael fferyllfa gymunedol yn hytrach na defnyddio siop breifat.
- Nodwyd nad oedd gwefan Hwb Iechyd Eifionydd wedi cael ei ddiweddaru i son am y newidiau yma, sef fod y fferyllfa oedd o fewn y ganolfan wedi cau.
- Datganwyd hefyd bryder fod son fod 'Pennant Medical Services', yn cael ei gynnal o'r ganolfan, a tybed beth yw ei ról nhw o fewn y Ganolfan yng Nghricieth.

Dyma'r ymateb gan Mr Wyn Thomas:-
"*Mewn ateb i'r pwyntiau a godwyd gennych ynglŷn â Chanolfan Iechyd Cricieth, a elwir bellach yn Hwb Iechyd Eifionydd -*

*Mae dwy hysbyseb am Feddyg Teulu i ymuno a Hwb Iechyd Eifionydd yn fyw ers rhai misoedd. 'Rydym wedi cael un meddyg yn datgan diddordeb hyd yma a gobeithiwn y datblygith y diddoreb yn swydd barhaol.*

*Mi rydym yn defnyddio gwasanaeth "locums" ac yr ydym yn lwcus iawn eu bod yn feddygon rheolaidd sydd wedi gwasanaethu y feddygfa ers blynyddoedd bellach. Mae ein defnydd o locums wedi bod ychydig yn uwch yn ddiweddar gan fod rhai o'n meddygon sefydlog wedi bod ar absenoldeb salwch.*

*Mae y fferyllfeydd yn Stryd Fawr Cricieth a Phorthmadog wedi bod yn darparu gwasanaeth rhagorol i'n cleifion ers blynyddoedd lawer gan ddefnyddio eu siopau preifat. A fyddwch cystal â chyfathrebu gyda y fferyllfeydd hyn yn uniongyrchol ynglŷn â'u darpariaeth danfon presgripsiynau os gwelwch yn dda?*

*Mae gwefan Hwb Iechyd Eifionydd yn y broses o gael ei diweddaru ynghyd a gwefannau ein holl feddygfeydd, sydd o dan reolaeth y Bwrdd Iechyd. Gobeithiwn gyhoeddi diweddariad i'n cleifion yn ystod y misoedd nesaf.*

*Mae yna gylchlythyr cleifion sydd yn cynnwys gwybodaeth ynglyn a'r meddygfeydd wedi ei baratoi ac yn y broses o gael ei gyfieithu ac mi fydd y cylchlythyr yn cael ei ddosbarthu i'n cleifion o fewn yr wythnosau nesaf.*

*Mae Gwasanaeth Meddygol Preifat Pennant yn darparu gwasanaeth preifat i'n cleifion. Gwaith nad ydyw'r feddygfa nag y Bwrdd Iechyd yn darparu. Mae gan y Bwrdd Iechyd gytuneb fod y cwmni hwn yn defnyddio'r ganolfan i ddarparu'r gwaith yma er hwylusdod i'n cleifion".*

Derbyniwyd taflen wybodaeth gan Reolwr Practis Hwb Iechyd Eifionydd hefyd, sydd yn mynd i gael ei ddosbarthu ganddynt i gleifion yr ardal. Gofynwyd i'r Clerc gysylltu hefo Cyngor Cymuned Dolbenmaen a Chyngor Tref Cricieth i gydweithio ac i wrthwynebu am y pryderon.

14. **Gwaith ar y llwybrau, Ebrill 2022 ymlaen**.

a. Llwybr swyddogol o Ffynnon Cybi i ben Garn Bentyrch, un toriad.
b. Llwybr dan bont y rheilffordd i'r traeth yn Afonwen, dau doriad.
c. Llwybr heibio Ynysgain Bach hyd at bont y rheilffordd, dau doriad.
ch. Llwybr o'r ffordd fawr i fyny at fythynnod Tŷ Newydd, dau doriad.
d. Llwybr Clawdd Llanw o Bontfechan dros y rheilffordd am Ty'n Morfa, dau doriad.
dd. Ceg y llwybr ar hen ffordd Abercin, ochr y pentref i'r ffordd osgoi.
e. Cadw safle bedd D. Lloyd George yn daclus yn ystod y tymor.

f. **Maenywern, Llanystumdwy** – gwaith clirio tir y Cyngor ger y bont ac ar hyd y wal i fyny tuag at y Bedd.

***Hysbyseb wedi cael ei roi ar y wefan, Y Ffynnon a'r hysbysfyrddau i gael prisiau, hefo dyddiad cau 29.04.2022, er mwyn ei trafod yn y cyfarfod mis Mai 2022.***

ff. **Cytundeb torri Cae Chwarae Llangybi** (*cytundeb 3 mlynedd eisioes wedi ei wneud rhwng 2021-2023).*

g. **Glanhau llochesi bws** – cytundeb eisioes wedi ei wneud llynedd tan 31.03.2023.

15. **Materion Ariannol**
Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol a chyfrifon rhwng 01.04.2021 hyd at 30.03.2022, a'r rhagolwg a wnaed tan 30.03.2022. Bydd y Clerc yn creu dogfen rhagolwg newydd ar gyfer y flwyddyn tan 31.03.2023 erbyn y cyfarfod nesaf. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes ac yn mynd i gael ei wneud. Roedd y Clerc wedi mynd â'r biliau i gyd at y Cadeirydd i'w llofnodi a'i awdurdodi i gael ei talu o flaen y cyfarfod.

16. **Archwiliad allannol – cyfrifon 2020 - 2021.** – Fe ffoniodd y Clerc Mr Deryck Evans, Archwilio Cymru ar y 07.04.2022 yn holi pa bryd fyddai'r archwilio allanol yn cael ei gwblhau ar gyfer 2020/2021.
Derbyniodd ebost y prynhawn hwnnw ganddo yn **cadarnhau fod yr archwiliad wedi cael ei orffen a fod popeth yn iawn. Bydd y Clerc yn gosod hysbysiad o hyn ar y wefan, a'r hysbysfyrddau.** Derbyn, a diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith.

17. **Costau cyfrif banc HSBC** – ers 05.11.2021 mae'r banc yn codi 'ffi am gynnal y cyfrifon' o £5.00 y mis ar y cyfrif cyfredol a'r cyfrif lle mae'r taliad Lightsource yn cael ei dalu. Mae'r Clerc wedi bod yn holi yn y banc i weld os oedd rhaid ei talu, ond dywedwyd fod hyn wedi bod ar y gweill ganddynt ers blynyddoedd a bydd pob banc arall yn gwneud yr un fath yn y dyfodol agos. Bydd hyn yn gost o £120.00 y flwyddyn rhwng y ddau gyfrif.

Y Clerc wedi cysylltu hefo Cwmni Lightsource, i egluro'r sefylfa, gan ofyn os oedd byddent yn fodlon anfon yr un taliad blynyddol atom ni, i'n prif gyfrif cyfredol o hyn ymlaen. Gellir wedyn gau'r cyfrif arall, a chadw cofnod arwahan i'r arian yma.
Mae Cwmni Lightsource wedi cadarnhau ei bod wedi newid y cyfrif banc rwan, i'n prif gyfrif cyfredol, felly bydd bob taliad ganddynt yn y dyfodol yn cael ei dalu i hwnnw.
Bydd angen trefnu i gau y cyfrif banc lle mae taliadau Lightsource, a throsglwyddo'r arian sydd ynddo i'r prif gyfrif cyfredol. **Clerc am cwblhau'r ffurflen bwrpasol, a chysylltu â'r banc i gau y cyfrif, a throsglwyddo'r arian i gyfrif cyfredol HSBC y cyngor cymuned.**

18. **Cais am arian i Fynwent Chwilog** – i lanhau/ail lythrennu bedd Eifion Wyn a Myrddin Fardd cyn yr Eisteddfod Genedlaethol flwyddyn nesaf. Nodwyd fod beddi eraill yn yr ardal angen ei tacluso hefyd. Gofynwyd i'r Clerc wneud ymholiadau'n gyntaf hefo Swyddog Cefnogi Cymunedau Cyngor Gwynedd, i weld os oedd yn bosib cael arian o rywle fel y Gronfa Dreftadaeth.

19. **Cais am arian i 4 plentyn o Ysgol Llanystumdwy** - mynd am drip ysgol i Mercia, Sbaen mis Gorffennaf, 2022 - un o'r pentrefwyr wedi gofyn am gyfraniad ariannol iddynt gael y

profiad o weld plant Sbaeneg mewn ysgol yno. **Y Clerc i holi Un Llais Cymru gyntaf, oherwydd fod peryg i hyn gychwyn cynsail yn y dyfodol.**

20. **Diffibileiddiwr yn Rhoslan a Chapel y Beirdd** – y Clerc wedi derbyn ateb gan yr Adran Gwaith Stryd a Goleuo, Cyngor Gwynedd yn dweud fod y polyn a thrydan wedi cael ei osod rwan ar gyfer gosod y 'diffib.'newydd ger y lloches bws yn Rhoslan. **Bydd angen penderfynu pa un i'w brynu.**

21. **Cyflog Clerc** – derbyniwyd gwybodaeth gan Un Llais Cymru 04.03.2022, yn cadarnhau fod Y Gwasanaethau Llywodraeth Leol wedi codi cyflog clercod 1.75% yn nol i'r 01.04.2021.
Bydd graddfa cyflog y Clerc felly'n codi o fod yn £11.05 i fod yn £11.28. Mae'r raddfa yn aros yr un fath ers 01.04.2021, sef pwynt rhif 10, (mae graddfa cyflog y Clec rhwng rhif 7 – 12).
**Felly mae cyflog y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol o 01.04.2021 ymlaen yn £11.28 yr awr x 35 awr y mis = £394.80 (yn lle £387.80 y mis).**
*Fe wnaeth y Clerc ddangos y manylion i'r Cadeirydd o flaen y cyfarfod.* **Derbyn.**

22. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris<br>£ | TAW | Cyfanswm Taliad<br>£ | Taliad BACS<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Delwedd (006) | Cost lletya/cynhaliaeth blynyddol | **445.09** | **89.02** | **534.11** | **534.11** |
| Wifi Neuadd Llanystumdwy | O'r cyfrif Budd-Cymunedol. Mae'r taliad rhwng 01.03.21 – 31.03.22<br>***Y Clerc wedi gwneud taliad am £324.59, yn hytrach na £340.02 fel y nodwyd yn y rhaglen. Yn dilyn derbyn y manylion pellach gan Drysorydd y Neuadd:-***<br>***£38.34 x2 fis 01.03.21&01.04.22***<br>***£40.74 – 01.05.21***<br>***£15.65 – 01.06.21***<br>***£23.94 x 8 mis 01.07.21-01.02.22*** | **324.59** | | **324.59** | **324.59** |

22. Cyflog mis Mawrth 2022 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS:-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Mawrth 2022<br>35 awr y mis x £11.28 = £394.80<br><br>(ac ol-daliad codiad cyflog 1.75% rhwng 01.04.2021 – 28.02.2022 sef 0.23 ceiniog yn fwy yr awr x 35 awr y mis = £8.05 x 11 mis = £88.55) | 394.80 & ol-daliad £88.55 = £483.35<br><br>Llai treth £96.67 = **£386.68** | **386.68** | **386.68** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyllid a Thollau EM<br>Treth ar enillion y Clerc Mawrth 2022 a'r ol-daliad | 483.35 x 20% = **£96.67** | **96.67** | **96.67** |
| Costau'r Clerc<br>Mawrth 2022 | £16.66 | **16.66** | **16.66** |

Penderfynwyd mai ar y nos Iau **12.05.2022** fydd y cyfarfod nesaf (a chyfarfod blynyddol), oherwydd fod yr etholiad yn cael ei gynnal ar 05.05.2022. Penderfynwyd cynnal y cyfarfod yn Neuadd Chwilog.

23. **Gyda chaniatâd y Cadeirydd oherwydd nad oes cyfarfod tan 12.05.2022:**
Cais cynllunio –
**Cais rhif : C22/0250/41/LL – Camping Site Swn y Mór, Chwilog** – gosod 4 siale/uned wyliau gyda mynediad anabl a system ddraenio dẃr budr cynaladwy. **Dim sylwadau.**

**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**